**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 15 RHAGFYR 2020 TRWY SKYPE**

**Yn bresennol:** Dr Debra Williams (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling (Dirprwy Gadeirydd); Mr David Powell; Mrs Julie May; Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Josh Lovell (Swyddog Arolygon); Miss Hannah Toor (Swyddog Cymorth Busnes).

**Amser Dechrau:** 10:30
**Amser Gorffen:** 12:10

**Ymddiheuriadau:** Dd/B

## 1. Datganiadau Buddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 2. Cofnodion Cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2020.

2.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar rai mân ddiwygiadau.

## 3. Arolwg Etholiadol Bro Morgannwg – Adroddiad Terfynol

3.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 08 Rhagfyr 2020 gan y Swyddog Arolygon.

3.2. Ystyriodd y Comisiwn gynnwys yr adroddiad, a'r enwau arfaethedig ar gyfer wardiau etholiadol.

3.3. **Cytunwyd** ar yr Adroddiad, yn amodol ar fân ddiwygiadau i'w gwneud gan y Swyddog Arolygon cyn dechrau'r broses Sicrhau Ansawdd.

3.4. **Cyfanswm cyffredinol nifer yr aelodau – 54**

3.5. Enwau:

Ystyriodd y Comisiwn yr enwau arfaethedig ar gyfer y wardiau etholiadol. Rhoddir isod restr o'r enwau cytunedig yn Gymraeg ac yn Saesneg.

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Baruc | Baruc |
| Buttrills | Buttrills |
| Cadoc | Cadog |
| Castleland | Castleland |
| Cornerswell | Cornerswell |
| Court | Court |
| Cowbridge | Y Bont-faen |
| Dinas Powys | Dinas Powys |
| Dyfan | Dyfan |
| Gibbonsdown | Gibbonsdown |
| Illtyd | Illtud |
| Llandow/ Ewenny | Llandŵ / Ewenni |
| Llantwit Major | Llanilltud Fawr |
| Peterston-Super Ely | Llanbedr-y-fro |
| Plymouth | Plymouth |
| Rhoose | Y Rhws |
| St Athan | Sain Tathan |
| St Augustine’s | St Augustine’s |
| St Bride’s Major | Saint-y-brid |
| St Nicholas and Llancarfan | Sain Nicolas a Llancarfan |
| Stanwell | Stanwell |
| Sully | Sili |
| Wenvoe | Gwenfô |

## 4. Cofrestr Risgiau

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r adroddiad dyddiedig 15 Rhagfyr 2020 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** ei gynnwys.

4.2. **Nodwyd** bod risg CR1 ynglŷn â chŵyn Sir y Fflint bellach wedi derbyn ymateb ac wedi cael ei chau gan y Comisiwn.

4.3. **Gweithredu:** Y Rheolwr Cyllid i ddiweddaru’r gofrestr risgiau i adlewyrchu hyn.

4.4. **Cytunwyd** y byddai arolwg Caerdydd yn cael ei ychwanegu at y gofrestr risgiau. Byddai hyn yn effeithio ar risg CR1 ynglŷn ag enw da a risg CR2 ynglŷn â’r amserlen arolygon. Y rhesymau dros hyn yw’r ohebiaeth barhaus sy’n arwain at gost sylweddol i’r Comisiwn o ran ffïoedd cyfreithiol ac amser staff.

4.5. **Cytunwyd** y dylai sgôr risg weddilliol risg CR1 ynglŷn ag enw da gael ei chynyddu i 12, ac y dylai sgôr risg weddilliol risg CR2 ynglŷn â'r amserlen arolygon gael ei chynyddu i 20 (Coch).

4.6. Gweithredu: Y Rheolwr Cyllid i ychwanegu Arolwg Caerdydd at y gofrestr risgiau.

## 5. Adroddiad ar y Gyllideb

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 08 Rhagfyr 2020 gan y Rheolwr Cyllid. Nodwyd ei gynnwys a **chytunodd** y Comisiwn yn ffurfiol â'r bwriad o drosglwyddo arian rhwng cyllidebau.

5.2. **Nodwyd** y byddai'r tanwariant rhagamcanol ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol oddeutu £10,000 - £14,000.

5.3. Mae'r ffigurau hyn yn tybio y bydd y Dirprwy Brif Weithredwr yn gadael ar 31 Rhagfyr 2020. Mae'r Comisiwn yn aros am gadarnhad gan Swyddfa'r Cabinet ynglŷn â'r mater hwn, ac mae'n bosibl y gallai'r Dirprwy Brif Weithredwr aros gyda'r Comisiwn tan ddiwedd mis Ionawr 2021.

5.4. Pe byddai angen gwariant cyfreithiol ychwanegol, **nodwyd** mai'r cynllun wrth gefn ar gyfer y gyllideb fyddai gohirio'r dyddiad dechrau ar gyfer rolau Cymorth Tîm y Comisiwn Ffiniau i Gymru, o bosibl, o fis Chwefror 2021 tan fis Mawrth 2021.

5.5. Adroddwyd bod y gyllideb ar gyfer 2021-22 wedi cael ei hadolygu ac y byddai adnoddau ychwanegol a allai darparu arian ar gyfer gwaith ymchwil ynglŷn â pholisi ac ymarfer newydd y Rhaglen Arolygon nesaf.

5.6. **Gweithredu:** Y Rheolwr Cyllid i ychwanegu prosiect ymchwil at gyllideb 2021-22 ac ailweithio'r gyllideb yn y cyfarfod nesaf ar 26 Ionawr 2021.

## 6. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2020

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 07 Rhagfyr 2020 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** ei gynnwys.

6.2. **Nodwyd** o'r cyfarfod y byddai Theo Joloza yn gweithredu fel Hyrwyddwr TGCh y Comisiwn.

6.3. **Nodwyd** bod Archwilio Cymru wedi ychwanegu tâl ychwanegol o £2,000 ar gyfer archwilio cyfrifon blynyddol 2019-20 a bod hyn wedi cael ei **gytuno** gan yr ARAC.

6.4. **Nodwyd** y bydd Cymwysterau Cymru yn cynnal ymarfer manwl ynglŷn â system TGCh y Comisiwn.

## 7. Unrhyw Fater Arall Perthnasol

7.1. Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ynglŷn â methiant diweddar systemau e-bost y Comisiwn. Roedd hyn yn ymwneud â mater trwyddedu Microsoft, a newid i strwythur y trwyddedau, a olygodd nad oedd hysbysiad trwyddedu wedi cael ei anfon at y Comisiwn.

7.2. **Nodwyd** bod y Pennaeth Busnes wedi diweddaru trwyddedau'r Comisiwn bellach ac wedi sefydlu hysbysiadau lluosog ar y system i atal hyn rhag digwydd eto.

7.3. O ystyried yr ymosodiad seiber diweddar ar Gomisiynydd y Gymraeg, mae'r Comisiwn yn parhau i fod yn wyliadwrus iawn ar hyn o bryd. Mae'r Comisiwn yn gweithio gyda Chymwysterau Cymru i atal systemau'r Comisiwn rhag bod yn agored i fygythiadau seiber.

## 8. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 26 Ionawr 2021